# Uned 2: Lefel A Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## *2.2.4 Deddfwriaeth a Pholisïau I blant*

cbac wjec

## Deddf Plant 1989, 2004

**Nod:** mae gan bob person a sefydliad sy'n gweithio gyda phlant gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo eu lles.

**Egwyddorion:** dylid rhoi blaenoriaeth lwyr i les plant, dylai plant gael y gofal gorau o fewn eu teulu eu hunain, darpariaeth ar gyfer adegau lle na fydd teuluoedd yn cydweithredu â sefydliadau/awdurdodau.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989

**Nod:** cytundeb rhyngwladol cyfreithiol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn, ni waeth beth fo'i hil, ei grefydd, neu'i allu.

**Egwyddorion:** gwrthwahaniaethu, canolbwyntio'n llwyr at sicrhau lles pennaf y plentyn, hyrwyddo'r hawl i fywyd, i oroesiad ac i ddatblygiad.

### Polisi: Plant Iach Cymru

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi teuluoedd yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at y blynyddoedd ysgol gynnar. Mae'n hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a phlant, yn gwella gwydnwch teuluoedd a'u hiechyd emosiynol, yn cynorthwyo â cherrig milltir o ran twf a datblygiad, yn helpu yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol, yn amddiffyn rhag clefydau y gellir eu hosgoi yn ystod plentyndod, ac yn canfod problemau corfforol, metabolaidd, a thwf yn gynnar drwy drefniadau sgrinio cynhwysol.

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Nod:** asesu, cynllunio a monitro, gydag ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc drwy Gynlluniau Datblygu Unigol.

**Egwyddorion:** yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau. Yn rhoi'r hawl i blant a'u rhieni apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan awdurdod lleol.

Yn gysylltiedig â'r canlynol:

**Deddf Hawliau Dynol 1989** (cydraddoldeb, tegwch, hawl i fywyd, rhyddid, rhyddid rhag caethwasiaeth).

**Deddf Cydraddoldeb 2010** (amddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail hil, crefydd, cefndir cymdeithasol/economaidd ac anabledd).

### Polisi: Dechrau'n Deg (Cymru)

Cynllun i blant dan 4 oed sydd o dan anfantais. Mae'n darparu gofal plant rhan amser, rhaglenni rhiant a, gwasanaeth estynedig gan ymwelwyr iechyd, a chefnogaeth wrth helpu plant i siarad a chyfathrebu.

### Polisi: Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach

Yn annog ysgolion i fynd ati i hyrwyddo ac ystyried iechyd corfforol, meddyliol, a chymdeithasol drwy ymdrin â bwyd, ffitrwydd, iechyd a lles meddwl ac emosiynol, perthnasoedd personol, camddefnyddio sylweddau, yr amgylchedd, diogelwch a hylendid.

### Cymru: Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair

Ffocws ar y blynyddoedd cynnar a gofal plant, lleihau'r bwlch tlodi, buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant, parhau i fuddsoddi yn rhaglen Dechrau'n Deg, gwella canlyniadau i blant sy'n byw mewn tlodi (tai, iechyd, deiet ac arferion y teulu).